Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Isafbris am alcohol yng Nghymru



# Isafbris Uned ar gyfer Alcohol yng Nghymru

**O 1 Hydref 2026 mae'r isafbris yn cynnyddu i 65c yr uned, bydd yn drosedd gwerthu a/neu gyflenwi alcohol am lai na'r isafbris hon yng Nghymru.**

Mae'r gyfraith hon yn rhan o ymgyrch eang a pharhaus Llywodraeth Cymru i leihau lefelau yfed peryglus a niweidiol yng Nghymru. Ei nod yw diogelu iechyd y rheini sy'n yfed lefelau uwch o alcohol rhad a chryf.

## Fel manwerthwr, dyma'r hyn y dylech ei wneud

**Rydym yn eich cynghori i gymryd y camau canlynol i sicrhau nad ydych yn gwerthu alcohol am lai na'r isafbris.**

1. Cyfrifo'r isafbris priodol ar gyfer cynnyrch alcohol.
2. Creu polisi ynghylch pa symiau disgownt (os oes rhai) a allai gael eu defnyddio mewn perthynas â'r cynnyrch hwn yn eich siop, a'u prosesu i wneud yn siŵr na fyddai unrhyw ddisgownt yn golygu y byddai'r pris gwerthu'n llai na'r isafbris.
3. Newid y pris (os bydd angen) ar y systemau prisio canolog, er mwyn sicrhau bod y pris cywir yn gysylltiedig â'r cod bar ar y cynnyrch.
4. Cyn gweithredu unrhyw newidiadau i brisiau, cofiwch newid y prisiau ar y canlynol:
    - tagiau neu labeli sy'n dangos y prisiau ar y silffoedd;
    - bwydlenni;
    - posteri, taflenni neu ddeunyddiau eraill sy'n hyrwyddo'r cynnyrch;
    - gwefannau.

**Mae'n hanfodol bod pob pris yn glir ac yn ddiamwys i'r cwsmeriaid, ac nad ydynt yn cael eu camarwain.**

# Cyfrifo'r isafbris priodol ar gyfer alcohol

**Mae'r Ddeddf yn cynnwys fformiwla y mae'n rhaid ei defnyddio i gyfrifo'r isafbris priodol.**

Bydd y fformiwla hon yn cynnwys yr isafbris uned (MUP), canran cryfder yr alcohol, a'r cyfaint. Cafodd y fformiwla ei chreu gyda'r bwriad o dargedu alcohol sy'n rhad ac yn gryf, gan fod y bobl sydd yn y perygl mwyaf o gael niwed o yfed alcohol yn dueddol o yfed y diodydd hyn.
**Yr isafswm uned ar gyfer alcohol yw 65c.**

Os bydd diod sy'n cynnwys alcohol yn cael ei gwerthu am bris sy'n uwch na'r isafbris priodol, ni fydd angen newid y pris hwnnw. Os yw'r ddiod yn cael ei gwerthu ar hyn o bryd am lai na'r pris priodol, bydd yn rhaid codi'r pris hwnnw.

O dan y Ddeddf, rhaid cyfrifo'r isafbris am alcohol a werthir neu a gyflenwir yng Nghymru drwy ddefnyddio'r fformiwla ganlynol:
**65c (MUP) x Cryfder x Cyfaint.**

**Sut i gyfrifo'r isafbris:**

| | 65c | X Cryfder | X Cyfaint | = Isafbris |
|---|---|---|---|---|
| Gwirod | 0.65 | 40.0% | 1 Litre | £26.00 |
| Pecyn o 12 potel x 330ml | 0.65 | 5% | 3.96L | £12.87 |
| Wine | 0.65 | 12.55 | 0.75L | £6.09 |
| Lager / Cwrw / Seidr | 0.65 | 3.6 / 5.2% | 0.568L | £1.36 / £1.92 |
| | 0.65 | 5.2% | 0.44L | £1.49 |
| Un Mesur o Wirod | 0.65 | 40.0% | 0.025L | £0.65 |

# Troseddau

Bydd manwerthwyr sy'n gwerthu neu'n cyflenwi alcohol am bris sy'n llai na'r isafbris yn torri'r gyfraith.




Gellir rhoi hysbysiad cosb benodedig i'r rheini sy'n torri'r gyfraith, neu efallai bydd yn rhaid iddynt fynd gerbron y llys gyda'r posibilrwydd o gael mwy o gosbau.

Swm y gosb yn yr hysbysiad fydd £200 os caiff ei dalu o fewn 29 diwrnod, neu £150 os caiff ei dalu o fewn 15 diwrnod.

# Dyddiad gweithredu

**O 1 Hydref 2026 bydd yr isafbris cyfredol yn newid o 50c i 65c yr uned.**

# Rhagor o wybodaeth a chyfarwyddyd

I gael rhagor o wybodaeth am isafbris uned am alcohol ewch i **llyw.cymru** neu cysylltwch â **substance.misuse@llyw.cymru**

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG54674
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg